# Poeni am arian?

## Mae cymorth ar gael yn Rhondda Cynon Taf



## Tri cham i ddod o hyd i opsiynau a lle i gael cymorth

## Cam 1: Beth yw'r broblem?

### Does gen i ddim arian yn sydyn

- Colli swydd neu lai o oriau
- Arian wedi'i atal
- Wedi colli arian
- Traul annisgwyl
- Trychineb (e.e. llifogydd neu dân)
- Perthynas wedi chwalu
- Sancsiwn (gweler opsiwn 5)

**Gweler opsiynau 1 2 6**

### Does gen i ddim digon o arian

- Rwy'n gorfod penderfynu rhwng bwyd, tanwydd, rhent neu gredyd ffôn symudol
- Incwm isel
- Contract dim oriau
- Tâl Salwch Statudol yn rhy isel
- Wynebu colli swydd
- Dwi ddim yn siŵr os ydw i'n gymwys am gymorth
- Newid mewn amgylchiadau

**Gweler opsiynau 1 2**

### Mae gennyf ddyled

- Rhent neu Dreth y Cyngor
- Nwy a thrydan
- Benthyciadau diwrnod cyflog
- Mae arnaf arian i ffrindiau neu deulu
- Ad-daliadau budd-daliadau

**Gweler opsiwn 3**

### Rwy'n aros am daliad neu flaenswm budd-dal

- Cais newydd am fudd-dal
- Mae fy nhaliad wedi'i oedi
- Rwy'n aros am benderfyniad

**Gweler opsiynau 1 4**

## Cam 2: Beth yw'r opsiynau?

### 1 Cynlluniau Cymorth Llywodraeth Cymru a'r Cyngor

Gall Cronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru gynnig Taliad Cymorth mewn Argyfwng (EAP) i helpu gydag eitemau hanfodol fel bwyd, nwy, trydan neu ddillad os ydych chi'n profi caledi ariannol sylweddol, neu mewn sefyllfa o argyfwng ac angen cymorth ariannol ar unwaith. Gall pobl ar incwm isel hefyd fod yn gymwys i gael budd-dal tai, gostyngiad Treth y Cyngor neu Daliad Tai yn ôl Disgresiwn gan y Cyngor. Bydd hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau presennol ac a ydych chi'n talu rhent a/neu Dreth y Cyngor. Am ragor o fanylion gweler 'Cymorth pellach gan y Cyngor' yng Ngham 3.

### 2 Cynyddu'ch Incwm i'r Eithaf

Gall unrhyw un sy'n cael trafferthion ariannol wirio eu budd-daliadau a siarad ag ymgynghorydd i gael cyngor cyfrinachol yn rhad ac am ddim. Gall gwiriad budd-daliadau sicrhau eich bod chi'n cael yr holl arian y mae gyda chi hawl iddo, yn enwedig os yw eich amgylchiadau wedi newid yn ddiweddar. Gallai siarad ag ymgynghorydd hefyd eich helpu i ddod o hyd i brisiau rhatach ar gyfer pethau fel nwy a thrydan a gwneud yn siŵr eich bod chi ddim yn colli allan ar bethau fel prydau ysgol am ddim.

### 3 Cyngor ar Ddyledion

Gall dyled ddigwydd i unrhyw un. Gall cyngor a chymorth am ddim eich helpu i ddod o hyd i ffyrdd o reoli eich dyledion a lleihau faint rydych chi'n ei dalu bob mis.

### 4 Blaenswm Budd-daliadau

Os ydych chi wedi gwneud cais newydd am fudd-daliadau ac yn wynebu caledi ariannol wrth aros am eich taliad cyntaf, efallai bydd modd i chi gael y taliad ymlaen llaw er mwyn fforddio pethau fel rhent neu fwyd. Mae'n bwysig cael cyngor cyn cymryd taliad ymlaen llaw. Rhaid talu'n ôl budd-daliadau ymlaen llaw, a bydd yr arian yn cael ei gymryd o'ch taliadau budd-dal yn y dyfodol (hynny yw, benthyciad).

### 5 Taliad Caledi

Os ydych chi wedi cael cosb gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, efallai bydd modd i chi ofyn am daliad caledi gan y Ganolfan Byd Gwaith. Dydy taliadau caledi ddim bob amser yn cael eu talu ar unwaith, a dydyn nhw ddim ar gael i bawb. Mae angen talu'n ôl taliadau caledi Credyd Cynhwysol (hynny yw, benthyciad), ond does dim rhaid talu'n ôl taliadau caledi Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (nid benthyciad yw hyn).

### 6 Herio Penderfyniad

Cewch herio penderfyniad budd-daliadau os yw'ch budd-dal wedi'i atal / cosbi / lleihau / gwrthod neu os ydych chi wedi cael gordaliad. Mae angen herio'r rhan fwyaf o benderfyniadau budd-daliadau cyn pen mis.

## Cam 3: Ble gallaf gael hyd i help? Am gymorth cyfrinachol am ddim.

### Cronfa Cymorth Dewisol

**Cael gwybod ydych chi'n gymwys a gwneud cais i'r Gronfa Cymorth Dewisol**
0800 859 5924 (rhadffôn)
www.llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-daf

### Y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad

**Cymorth gyda chostau gwisg ysgol, gwisg chwaraeon, offer TGCh ac adnoddau dysgu (o'r dosbarth derbyn i Flwyddyn 11)**
YGrantDatblyguDisgyblionMynediad@rctcbc.gov.uk
www.llyw.cymru/grant-datblygu-disgyblion-mynediad

### LEIN GYMORTH AMLIEITHOG CYMRU MHW

**Gwybodaeth am hawliau lles, cyngor ar faterion tai a chyflogaeth mewn ystod o ieithoedd**
0808 801 0720 | 07537 432 416 (neges destun)
www.multilingualhelpline.wales/cy

**Cymorth gydag opsiynau:** 1 2 4 5

### CYNGOR AR BOPETH

#### Cyngor ar Bopeth Rhondda Cynon Taf

**Cyngor ar fudd-daliadau, dyled, materion tai a llawer yn rhagor**
01443 409 284 (i drefnu apwyntiad)
0800 702 2020* (Advicelink Cymru)
enquiries@carct.org.uk
www.carct.org.uk/hafan

**Cymorth gydag opsiynau:** 1 2 3 4 5 6

#### Llinell gymorth 'Hawlio'ch budd-daliadau chi'

**Cymorth i wirio a hawlio'r budd-daliadau y mae gyda chi hawl iddyn nhw**
0808 250 5700

**Cymorth gydag opsiwn:** 2

#### Llinell gymorth â dyled y sector rhentu preifat

**Cymorth i denantiaid wneud y mwyaf o'u hincwm a rheoli dyledt**
0808 278 7920*

**Cymorth gydag opsiwn:** 3

**Relay UK: Os oes gyda chi anawsterau clyw neu leferydd, mae modd teipio'r hyn yr hoffech chi ei ddweud: 18001 yna 08082 505 720.*

### CEFNOGAETH I BOBL DROS 50 OED

#### Age Connects Morgannwg

**Cyngor ar fudd-daliadau a chymorth arall i bobl dros 50 oed a'u teuluoedd**
01443 490 650
information@acmorgannwg.org.uk
www.ageconnectsmorgannwg.org.uk/cy/home

**Cymorth gydag opsiynau:** 1 2 3 4 5 6

#### Gwasanaeth Gofal a Thrwsio Cwm Taf

**Cyngor ar fudd-daliadau a gwneud y mwyaf o'ch incwm**
01443 755 696 | enquiries@cwmtafcr.org.uk
www.careandrepair.org.uk/cy

**Cymorth gydag opsiwn:** 2

### SHELTER CYMRU

**Cyngor ar faterion tai gan gynnwys cymorth i ddelio ag ôl-ddyledion morgais a rhent**
01792 469 400
swansea@sheltercymru.org.uk
sheltercymru.org.uk/cy

**Cymorth gydag opsiwn:** 3

## Cymorth Arall

#### Age Cymru

**Cyngor a chymorth i bobl hyn**
03003 034 498 | advice@agecymru.org.uk
www.ageuk.org.uk/cymru (Saesneg yn unig)

#### Cynllun Cynnal y Cynhalwyr RhCT

**Adnoddau a chymorth ar gael i gynhalwyr**
01443 281463 | www.rctcbc.gov.uk/carers

#### Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned

**Cymorth i bobl sydd ddim â rhwydweithiau cymorth lleol**
01443 425 020
RhCTgydangilydd@rctcbc.gov.uk

#### Turn2Us

**Gwybodaeth a chymorth ariannol**
0808 802 2000 | www.turn2us.org.uk
benefits-calculator.turn2us.org.uk

#### Gyrfa Cymru

**Cymorth gyda chynllunio'ch gyrfa, paratoi i gael swydd, dod o hyd i'r prentisiaethau, y cyrsiau a'r hyfforddiant cywir a gwneud cais amdanyn nhw**
0800 028 4844 | gyrfacymru.llyw.cymru/

#### Helpwr Arian

**Cyngor i helpu i wella sut rydych chi'n trin arian**
0800 138 7777 | www.moneyhelper.org.uk/cy

# Cymorth Arall

### Cymorth Cyflogaeth
**Cymorth a chyngor i unrhyw un dros 16 oed sy'n ceisio gwaith, hyfforddiant, gwirfoddoli neu wella'u sgiliau**
01443 425 761 | cam@rctcbc.gov.uk

### Cymru Gynnes: Cartrefi Iach, Pobl Iach
**Cymorth a gwybodaeth i'ch helpu i fyw mewn cartref cynhesach, mwy diogel a iach**
01656 747 622 | hhhp@warmwales.org.uk
www.warmwales.org.uk/cy/cartref

### Interlink RhCT
**Cymorth o ran lles**
07526 571 340 | wellbeing@interlinkrct.org.uk
www.interlinkrct.org.uk/wellbeing-and-support

### Byw Heb Ofn
**Gwybodaeth a chyngor ar gam-drin domestig a thrais rhywiol**
Llinell Gymorth (Ar gael ddydd a nos): 0800 8010 800
Anfonwch neges destun i: 0786 0077 333
gwybodaeth@llinellgymorthbywhebofn.cymru

### Nyth
**Cyngor ar ynni a gwelliannau i'r cartref**
0808 808 2244 | www.nyth.llyw.cymru

### National Energy Action: Gwasanaeth cyngor ar gartrefi cynnes a diogele
**Cyngor i ddeiliaid tai ar filiau ynni a chadw'n gynnes ac yn ddiogel gartref**
0800 304 7159 | www.nea.org.uk/wales/ (Saesneg yn unig)

### Talebau Cychwyn Iach
**Cymorth i brynu ffrwythau, llysiau a llaeth os yw'ch incwm yn isel ac rydych chi'n feichiog neu os oes gyda chi blentyn o dan 4 oed. Gwneud cais ar-lein:**
www.healthystart.nhs.uk

### Cymdeithasau Tai
**Cyngor ar arian, budd-daliadau a dyled i denantiaid**

### Cymdeithas Tai 'Newydd'
0303 040 1998 | www.newydd.co.uk/cy
financialinclusion@newydd.co.uk

### RHA Wales
01443 424200 | www.rhawales.com

### Trivallis
01443 494 560 | MAT@trivallis.co.uk
www.trivallis.co.uk/en/money-advice-team

### Cymdeithas Tai Cymunedol Cynon Taf
0345 2602 633 | www.cynon-taf.org.uk/

# Ar gyfer ffoaduriaid, ceiswyr lloches a mudwyr sydd ddim yn gallu hawlio budd-daliadau (NRPF)

### Project 17
**Cyngor ar faterion tai ac opsiynau ariannol i deuluoedd â phlant sy'n wynebu tlodi difrifol/digartrefedd gan eu bod nhw ddim yn gallu hawlio budd-daliadau**
07963 509 044 | www.project17.org.uk

### Talebau Cychwyn Iach
**Cymorth i brynu ffrwythau, llysiau a llaeth os yw'ch incwm yn isel ac rydych chi'n feichiog neu os oes gyda chi blentyn o dan 4 oed. Gwneud cais ar-lein:**
www.healthystart.nhs.uk (Saesneg yn unig)

### Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig & Ieuenctid Cymru
**Mae'r gwasanaeth cymorth â lloches a ffoaduriaid yn EYST Sanctuary Hub yn cynnig cyngor ar y broses ceisio lloches, cymorth â'r Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches (NASS), budd-daliadau, arian a materion tai (wedi'i leoli yn Abertawe)**
07394 923 317 neu 07512 792 182
info@eyst.org.uk

# Gwybodaeth am y daflen yma

Mae modd gweld y taflenni 'Poeni am Arian?' ar-lein yma (Saesneg yn unig): www.ifanuk.org/cashfirst. Cafodd yr wybodaeth ar y daflen yma ei diweddaru ddiwethaf ar: 31/05/222

Adborth? Beth oedd yn ddefnyddiol i chi am y canllaw yma? www.bit.ly/moneyadvicefeedback

Digital Leaflet:
www.worryingaboutmoney.co.uk/rct